Diogelu disgyblion rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

# Cam-drin rhwng Cyfoedion

## Deall Cam-drin rhwng Cyfoedion

Mae Cam-drin rhwng Cyfoedion yn derm eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o ymddygiadau camdriniol a gaiff eu cyflawni a'u profi gan blant. Mae'n cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- **aflonyddu rhywiol** a thrais rhywiol
- **bwlio** (gan gynnwys drwy ddosbarthu delweddau rhywiol / anweddus)
- **cam-drin mewn perthynas rhwng pobl ifanc yn eu harddegau** (gall fod yn gam-drin corfforol, emosiynol, rhywiol neu seicolegol, gan gynnwys drwy reolaeth orfodol (gweler y daflen ffeithiau ar **gam-drin domestig**)
- meithrin perthynas amhriodol â phlant at ddibenion **cam-fanteisio rhywiol** a throseddol (gweler y daflen ffeithiau ar **Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant / Camfanteisio'n Droseddol ar Blant**)
- **stelcio** gan bartner presennol neu gynbartner, neu gan gyfoedion ehangach

Gall pob math o gam-drin rhwng cyfoedion ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein / yn electronig. Gall ddigwydd yn yr ysgol ac yng nghymunedau ehangach y plant.

Mae'n bwysig cofio y gall plant sy'n cam-drin plant eraill fod yn cael eu cam-drin eu hunain.

Gall pobl ifanc nad ydynt yn dioddef cam-drin yn uniongyrchol gael eu heffeithio gan arferion bwlio ac aflonyddu rhywiol ehangach yn yr ysgol, a gan achosion sy'n atgyfnerthu normau a stereoteipiau rhyweddol niweidiol.

**Mae hyn yn creu diwylliannau sy'n ffafriol i gam-drin rhwng cyfoedion.**

Mae'n bwysig bod pob aelod o'r staff yn herio arferion a stereoteipiau niweidiol o'r fath o ddydd i ddydd, ac yn hyrwyddo diwylliant ysgol cadarnhaol nad yw'n goddef unrhyw fath o gam-drin.

Gall rhai plant wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag datgelu camdriniaeth, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag iaith. Gall plant sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol gael eu hesgeuluso, gan y gall unrhyw ymddygiad gael ei gamddehongli fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â'u nam.

**Dylai'r holl bersonél mewn ysgolion ymgyfarwyddo â'r arwyddion a all ddangos bod plentyn yn cyflawni neu'n profi cam-drin rhwng cyfoedion.**

Os sylwch ar arwyddion a/neu os clywch wybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn cyflawni neu'n profi rhyw fath o gam-drin rhwng cyfoedion, mynegwch y pryderon hyn i'ch Person Diogelu Dynodedig.

## Arwyddion y gall plentyn fod yn profi cam-drin rhwng cyfoedion

- Gorbryder, iselder, meddyliau hunanladdol;
- Yn sâl yn gyson neu'n rheolaidd;
- Anhwylderau bwyta;
- Ymddygiad ymosodol neu'n gallu goddef lefelau uchel o drais;
- Bwlio a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis fandaliaeth;
- Yn mynnu sylw NEU'N mynd i'w gragen;
- Tystiolaeth ei fod yn cael ei fonitro gan aelodau o'r teulu / oedolion eraill;
- Problemau yn yr ysgol / trafferth dysgu;
- Defnyddio cyffuriau neu alcohol;
- Ffraeo â ffrindiau neu deulu;
- Anafiadau heb esboniad;
- Hunanymwybodol / diffyg hunanhyder;
- Cael negeseuon testun / galwadau yn gyson;
- Newid mewn personoliaeth a dirywiad mewn ymddygiad, perfformiad ac ymgysylltiad;
- Beichiogrwydd cynnar / dieisiau.

## Am geisio cyngor arbenigol?

**Llinell Gymorth Genedlaethol Byw Heb Ofn**

0808 80 10 800 / info@livefearfreehelpline.wales

**Llinell Gymorth BAWSO (sefydliad arbenigol i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig)**

0800 73 18 147 / info@bawso.org.uk

Bawso
Providing specialist services for BME communities

PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Cam-drin rhwng Cyfoedion: Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Yn ogystal â 'dyletswydd i hysbysu' ysgolion (gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel) mewn perthynas â diogelu, mae camau y gall ysgolion eu cymryd i **atal** cam-drin rhwng cyfoedion rhag digwydd / gwaethygu, ac i gynnig **cymorth** cyfannol i blant sy'n profi neu'n cyflawni achosion o gam-drin. Yn benodol:

**1. Addysgu disgyblion am fathau gwahanol o gam-drin rhwng cyfoedion a'u hawl i fod yn ddiogel.**

Gall rhai disgyblion gredu bod ymddygiad camdriniol yn normal. Felly, mae'n hanfodol bod ysgolion yn sicrhau bod pob plentyn yn deall y mathau gwahanol o gamdriniaeth; bod hawl ganddo i fod yn ddiogel a chael cymorth os bydd yn dymuno; a sut i gael gafael ar y cymorth hwnnw.

**2. Creu diwylliant mewn ysgolion sy'n herio aflonyddu rhywiol, bwlio, rhywiaeth a stereoteipiau rhyweddol niweidiol, gan hyrwyddo ethos o degwch rhyweddol sy'n seiliedig ar hawliau yn lle hynny.**

Gall diwylliant ysgol gael effaith sylweddol ar ymddygiad y plant a'r bobl ifanc, yn ogystal â pha mor debygol yw'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth o ddatgelu a cheisio cymorth. Bydd mynd i'r afael â stereoteipiau a normau niweidiol a threiddiol ynghylch 'gwrywdod' a 'benyweidd-dra' sy'n tanlinellu aflonyddu rhywiol, bwlio a cham-fanteisio, yn helpu i sicrhau bod dull ysgol gyfan yn atgyfnerthu gwaith i ddysgu am VAWDASV. Gweler **Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru** Llywodraeth Cymru am gyngor ac enghreifftiau o arferion da.

## Atal, Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

*Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc, ac yn uniongyrchol i ysgolion hefyd. Gall gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol gymryd atgyfeiriadau drwy ysgolion. Er enghraifft:*

### Atal / Addysg:

- **Rhaglen S.T.A.R. (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch) - Grwpiau addysg –** mae'r rhain yn addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach, rheolaeth drwy orfodaeth, cydsyniad, a ble i gael cymorth.
- **Prosiect Sbectrwm** a **SchoolBeat** – mae'r ddau yn codi ymwybyddiaeth ac yn addysgu ysgolion am gam-drin domestig.

### Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

- **Cymorth un i un i bobl ifanc sydd wedi profi ymddygiad camdriniol yn eu perthynas eu hunain.**
- **Rhaglenni mentora –** naill ai gyda grwpiau bach neu unigolion.
- **Grwpiau cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n dreisgar tuag at eu rhieni –** rhaglen newidymddygiad sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n defnyddio ymddygiadau camdriniol tuag at eu rhieni.
- **Cymorth therapiwtig –** megis cwnsela.

*Noder na fydd pob gwasanaeth cam-drin domestig yn cynnig yr holl wasanaethau uchod. Gallwch gysylltu â'ch gwasanaeth cam-drin domestig lleol i ganfod pa wasanaethau y mae'n eu cynnig.*

### Adnoddau defnyddiol i bobl ifanc:

**Cyfres o Bosteri ar Berthnasoedd Iach** – Dewch o hyd i'r rhain ar Hwb neu **yma**.
**Pecyn Cymorth ar gyfer Gwylwyr** – defnyddiol i unrhyw un sy'n bryderus am ffrind / aelod o'r teulu a all fod yn cael ei gam-drin, gan gynghori ar ffyrdd diogel o helpu.